

Talu am Ofal Preswyl

Cyflwyniad

Mae'r daflen ffeithiau hon yn dweud wrthy ch am y taliadau am ofal preswyl. Mae'n cynnwys gwybodaeth ynghylch sut yr ydym yn cyfrifo'r taliadau, beth sy'n digwydd i'ch budd-daliadau a beth sy'n digwydd os ydych yn berchen ar eiddo.

Noder bod y taliadau ar gyfer oedolion sy'n derbyn gwasanaethau cartref a gofal dydd tra'n byw yn eu cartrefi eu hunain yn cael eu disgrifio mewn taflen ffeithiau ar wahân: Talu am wasanaethau cartref a gofal dydd.

I gael mwy o wybodaeth am yr opsiynau gofal preswyl, beth am ddarllen ein taflen ffeithiau: Dewis Cartref Gofal.

Ai gofal preswyl yw'r dewis iawn i mi?

Os ydych yn teimlo bod eich anghenion o'r math sy'n golygu bod angen gwasanaeth preswyl arnoch, gallwch gael cymorth yn y broses hon drwy gael y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i asesu eich anghenion.

Bydd hyn yn helpu i benderfynu a fyddai gofal parhaol yn briodol neu a fyddai modd trefnu opsiynau eraill. Os pennir bod angen i chi symud i gartref preswyl neu nyrsio, mae angen i ni gyfrifo faint y gallwch fforddio ei dalu.

A fydd rhaid i mi dalu tuag at fy lleoliad?

Ar wahân i'r bobl hynny sy'n destun Adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, rhaid i bawb dalu rhywbeth tuag at ei ofal.

Os ydych chi wedi cael eich asesu gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol fel rhywun sydd angen gofal preswyl neu nyrsio tymor hir, mae'n rhaid i ni gynnal asesiad ariannol.

Sut mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gwneud yr asesiad ariannol?

Byddwn yn eich gwahodd yn awtomatig i lenwi ffurflen asesiad ariannol er mwyn i ni gyfrifo beth sydd gennych i'w dalu.

Os oes rhywun arall yn cwblhau a llofnodi'r ffurflen ar eich rhan, dylent gael awdurdod cyfreithiol priodol i wneud hynny.

Rhaid cynnwys tystiolaeth o'r awdurdod y rhoddwyd iddynt gyda'r ffurflen ee pŵer atwrnai parhaus. Os oes angen help arnoch i lenwi'r ffurflen, cysylltwch â ni ar 01495 766002 a byddwn yn trefnu i swyddog i'ch helpu i lenwi'r ffurflen.

Ar gyfer pob incwm, cyfalaf neu gynilion, rhaid i ni weld y dystiolaeth ddiweddaraf ee datganiadau banc am y 3 mis diwethaf. Os ydych yn derbyn budd-daliadau'r wladwriaeth efallai y byddwn yn gallu cael y wybodaeth hon ar eich rhan gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Gallwch anfon llungopiau gyda'ch ffurflen. Fel arall, gallwn dderbyn gwybodaeth drwy e-bost. Os oes gennych chi neu eich cynrychiolydd ffôn clyfar neu dabled tynnwch lun y delweddau sydd eu hangen i

gefnogi eich cais a'u he-bostio yn uniongyrchol i

FinancialAssessments@torfaen.gov.uk

Sut y cyfrifir y taliad?

Mae'r swm y bydd rhaid i chi dalu tuag at gost eich arhosiad mewn cartref preswyl neu nyrsio yn dibynnu ar eich incwm a'ch cyfalaf.

Wrth gyfrifo eich cyfraniad, rydym yn anwybyddu unrhyw gyfalaf o dan £50,000. Os oes gennych £50,000 neu fwy o gyfalaf, byddwch yn gyfrifol am dalu'r gost yn llawn am eich arhosiad.

Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf o'ch incwm, gan gynnwys budd-daliadau nawdd cymdeithasol, yn cyfrif tuag at eich costau gofal.

Os oes gennych ŵr neu wraig yn byw gartref byddwn yn gofyn i chi a ydych yn bwriadu pasio hanner unrhyw bensiwn galwedigaethol (preifat) iddo ef neu hi. Mae ein Swyddogion Cyngor ar Fudd-daliadau ar gael i roi cyngor i chi sut y gallai hyn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau sy'n cael eu hawlio.

Bydd y wybodaeth ar y ffurflen asesiad ariannol yn cael ei defnyddio i gyfrifo faint sydd angen i chi ei dalu bob wythnos tuag at eich costau gofal (tâl wythnosol a aseswyd). Bydd balans unrhyw gostau gofal nad yw eich tâl wythnosol yn ddigon i'w talu yn cael eu talu gan y Cyngor.

Beth fydd yn digwydd i fy muddaliadau?

Ni fydd pob un o'r budd-daliadau a gewch yn parhau i gael eu talu pan fyddwch yn mynd i mewn i ofal preswyl.

Os yw'r Cyngor yn cyfrannu tuag at eich costau gofal a chithau yn derbyn Lwfans Gweini, Lwfans Byw i'r Anabl (elfen ofal) neu Daliadau Annibyniaeth Bersonol (elfen byw bob dydd) bydd hyn yn peidio pedair wythnos ar ôl i chi ddechrau derbyn gofal. Oni bai eich bod wedi bod yn derbyn seibiant neu wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar, ac os felly gall fod yn fwy buan.

Os nad yw'r Cyngor yn talu unrhyw gyfraniad, mae hawl gennych i dderbyn y budd-daliadau hyn.

Os ydych yn derbyn Lwfans Byw i'r Anabl (elfen symudedd) neu Daliad Annibyniaeth Bersonol (elfen symudedd) bydd hyn yn parhau i gael ei dalu, ond ni fyddant yn cael eu hystyried wrth gyfrifo'r swm wythnosol yn dilyn asesiad.

Os ydych yn hawlio Cymhorthdal Incwm, Credyd Pensiwn neu Gredyd Cynhwysol mae angen i chi roi gwybod am y newid yn eich amgylchiadau i'r Adran Gwaith a Phensiynau. Os oes angen i chi hawlio'r budd-daliadau hyn dylech gysylltwch â'n Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau ar 01495-748843 neu 648752 a fydd yn gallu eich helpu.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwch yn cael eich cyfeirio'n awtomatig am Gyngor ar Fudd-daliadau, a byddant yn cysylltu â chi yn uniongyrchol. Bydd swyddog yn eich helpu i lenwi unrhyw ffurflenni cais a bydd

yn dilyn y cais wedi hynny i sicrhau eich bod yn hawlio'n gywir.

Pan fyddaf yn derbyn gofal preswyl/nyrsio faint fyddaf yn medru ei gadw bob wythnos?

O 11 Ebrill 2022 y swm y gallwch ei gadw ar gyfer eich anghenion personol yw £35.00. Mae'r swm hwn yn cael ei osod yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru. Gallwch hefyd gadw hyd at £5.75 ychwanegol fel person sengl os ydych dros 65 ac yn gymwys i dderbyn Credyd Pensiwn.

Beth sy'n digwydd os wyf yn berchen ar eiddo?

Os ydych chi'n berchen ar eich cartref, byddwn fel arfer yn cymryd ei werth i ystyriaeth wrth gyfrifo faint y mae'n rhaid i chi ei dalu am eich gofal preswyl.

Fodd bynnag, mae yna rhai eithriadau pwysig i'r rheol hon. Ni fydd eich cartref yn cael ei ystyried yn gyfalaf os ydych yn mynd i mewn i'r cartref dros dro neu os bydd un o'r bobl ganlynol dal i fyw yno:

- eich cymar (ar yr amod nad ydych wedi ysgaru neu wahanu)
- perthynas sydd dan 16, y mae'n rhaid i chi ei gynnal yn ôl y gyfraith
- perthynas sydd dros 60 oed
- perthynas sy'n analluog

Os oes gennych gyfalaf, gan gynnwys eiddo, sy'n werth £50,000 neu fwy gofynnir i chi dalu'ch costau gofal yn llawn.

Os yw gwerth eich cartref yn cael ei ystyried fel cyfalaf / cynilion, efallai na fydd gennych

ddigon o incwm neu gynilion eraill i dalu'r costau yn llawn am eich gofal preswyl. Yn yr amgylchiadau hyn, efallai y bydd angen i chi ystyried gwerthu eich cartref er mwyn talu ffioedd.

Os ydych yn berchen ar eiddo, efallai y byddwch am ystyried opsiynau eraill:

1. Amser i benderfynu – y rheol 12 wythnos

Er mwyn rhoi amser i chi benderfynu beth yr ydych am ei wneud, bydd gennych 'seibiant' 12- wythnos o'r diwrnod y byddwch yn symud i gartref preswyl yn barhaol. Mae hyn yn golygu, yn ystod y 12 wythnos gyntaf, ni fydd gwerth eich eiddo yn cael ei ddefnyddio wrth gyfrifo'r tâl wythnosol a aseswyd ar eich cyfer..

Ar ôl 12 wythnos bydd gwerth eich eiddo yn cael ei ystyried yn gynilion/cyfalaf, ac os yw hyn yn £50,000 neu'n uwch, gofynnir i chi dalu'ch costau gofal yn llawn.

Fodd bynnag, os byddwch yn gwerthu eich cartref yn ystod y cyfnod 12 wythnos, byddwch yn dechrau talu'r costau llawn am eich gofal cyn gynted ag y bydd wedi ei werthu.

2. Oedi neu ohirio eich taliadau

Rydym yn gwerthfawrogi bod hwn yn amser anodd, tra byddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch eich eiddo. Felly, un opsiwn yw i chi ddewis 'cytundeb gohirio taliadau' gyda'r Cyngor.

Os nad oes gennych ddigon o arian i dalu eich cyfraniad at eich ffioedd gofal heb werthu eich cartref, byddwn yn caniatáu i chi oedi cyn gwneud eich taliadau. Mae

hyn yn golygu y bydd y Cyngor yn rhoi benthyciad i chi. Byddwch yn ei dalu yn ôl pan fyddwch yn gwerthu eich cartref neu pan fydd eich ystâd yn cael ei ddirwyn i ben. Efallai y bydd tâl gweinyddol am sefydlu'r cytundeb i ohirio taliadau ac efallai y codir llog yn ystod y cyfnod y cytundeb i ohirio taliadau. Bydd y llog a godir yn 0.15% yn uwch na Chyfradd Giltiau'r Farchnad fel y nodir yn yr Adroddiad Rhagolygon Ariannol ac Economaidd a gyhoeddwyd yn ddiweddar.

Os caniateir eich cais i ohirio taliadau, byddem yn eich cynghori i geisio cyngor ariannol annibynnol cyn i chi gwblhau'r trefniadau.

Cofiwch ystyried diogelwch, yswiriant a chynnal a chadw os bydd eich eiddo yn cael ei adael yn wag. Mewn rhai amgylchiadau efallai y byddwn yn gwrthod eich cais i ohirio taliadau. Byddwn yn rhoi ein rheswm (rhesymau) yn ysgrifenedig a gallwch apelio yn erbyn y penderfyniad hwn. Cyfeiriwch at yr adran ar 'Beth os wyf yn anghytuno â'r penderfyniad?' - sydd wedi ei chynnwys yn nes ymlaen yn y daflen ffeithiau hon.

Beth sy'n digwydd os byddaf yn rhoi fy nghartref neu asedau eraill i ffwrdd?

Os yw person yn rhoi eu cartref, cynilion neu asedau eraill i ffwrdd cyn mynd i ofal preswyl / nyrsio neu pan fyddant eisoes yn byw yno, mae'n rhaid i ni ymchwilio yn fanwl i'r amgylchiadau. Rhaid i ni hefyd archwilio os bydd unrhyw ased yn cael ei werthu am lai na'i werth cywir ar y farchnad.

Am fod gennym ddyletswydd i ddiogelu cyllid cyhoeddus, rhaid i ni archwilio a phenderfynu a oedd rheswm sylweddol i waredu yn fwy o awydd i osgoi talu am ofal preswyl neu nyrsio neu osgoi talu tuag atynt.

Os byddwn yn penderfynu mai ffactor yn y penderfyniad i roi, neu werthu ased am lai na'i werth ar y farchnad oedd osgoi talu ffioedd neu leihau'r swm sy'n daladwy, mae'r gyfraith yn caniatáu i ni gymryd camau gweithredu. Yn ôl yr amgylchiadau, gallwn naill ai eich asesu fel un sydd dal i fod yn berchen ar yr ased(au), neu fynnu bod y person y rhesoch yr eiddo iddo, yn cyfrannu at eich ffioedd.

A fydd rhaid i mi dalu am ofal nyrsio (a bod angen) tra fy mod mewn gofal preswyl?

Os beirnedir bod angen gofal nyrsio preswyl arnoch yn dilyn asesiad gan y bwrdd iechyd lleol, byddant yn talu'r elfen nyrsio o'ch tâl i'r cartref. Gofynnir i chi dalu tâl ar gyfer elfen breswyl eich gofal, wedi'i gyfrifo'n seiliedig ar eich incwm fel y disgrifir uchod.

Mewn rhai achosion, gall yr Awdurdod Iechyd eich asesu a dweud eich bod yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ariannu gofal iechyd parhaus. Os yw hyn yn wir, ni fydd rhaid i chi dalu - bydd yr Awdurdod Iechyd yn talu'r gost yn llawn.

A fydd rhaid i mi dalu os oes angen cyfnod seibiant byr neu dros dro arnaf mewn cartref preswyl/nyrsio?

Os ydych yn mynd i gartref preswyl neu nyrsio am ofal seibiant / tymor byr, mae'r

rheolau codi tâl wedi eu diwygio o fis Ebrill 2016.

Mae hyn yn golygu os ydych angen gofal seibiant/tymor byr yn dilyn asesiad, codir yr un tâl a phe buasech yn derbyn gofal yn y cartref, a'r uchafswm y byddwch yn ei dalu yw £100.00 yr wythnos.

Beth fydd yn digwydd os bydd y cartref gofal yr wyf yn dewis yn costio mwy nag y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn barod i'w dalu?

Os nad oes unrhyw gartrefi gofal eraill yn yr ardal leol a fyddai'n cwrdd â'ch anghenion am y pris y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol fel arfer yn talu, byddwn yn cynyddu'r swm y byddwn yn ei dalu am eich gofal ac ni fyddwn yn gofyn i chi, neu berthynas, i dalu'r gwahaniaeth.

Fel arall, os yw'r cartref gofal yr ydych wedi ei ddewis yn costio mwy na fyddai'r Cyngor yn ei dalu fel arfer, a bod lleoedd ar gael mewn mannau eraill i ddiwallu eich anghenion, gallwch symud i'r cartref o'ch dewis cyntaf, os yw aelod o'r teulu neu ffrind yn barod i dalu'r gwahaniaeth. Gelwir hyn yn gostau ychwanegol (gan drydydd parti).

Ni ddylai unrhyw un byth gael eu gorfodi i ychwanegu at eich costau gofal, fodd bynnag, os bydd trydydd parti yn barod i dalu am lety gwell neu wasanaethau ychwanegol, dylent wneud cytundeb gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (Gofal Cymdeithasol).

Os daw amser pan na fydd eich trydydd parti yn medru fforddio'r gost ychwanegol mwyach, gallwch ofyn i ni ailasesu eich anghenion. Os bydd hyn yn digwydd - a'r

asesiad yn dangos y byddai cartref llai costus yn lleol yn diwallu'ch anghenion, efallai y byddwn yn gofyn i chi symud yno.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy amgylchiadau yn newid?

Os yw eich amgylchiadau wedi newid ac os oes angen cyngor arnoch, cysylltwch â'r Tîm Asesu Ariannol ar **01495 766002**. Os oes angen, bydd angen i chi lenwi ffurflen asesu ariannol newydd. Mae newidiadau yn cynnwys:

- Cynnydd/gostyngiad mewn incwm neu gyfalaf, ee. Os yw'n syrthio o dan **£50,000**.
- Eiddo a oedd yn cael ei ddiystyru'n flaenorol nad yw bellach yn dod o fewn y meini prawf diystyru, ee perthynas sydd dros 60 oed yn symud allan.

Sut y caf wybod faint bydd angen i mi ei dalu?

Byddwn yn cadarnhau yn ysgrifenedig yr hyn sydd rhaid i chi ei dalu a rhoi manylion llawn ynghylch sut a ble y gallwch chi dalu.

Os ydych wedi llenwi ffurflen asesiad ariannol, byddwn hefyd yn cynnwys copi o'r swm wythnosol a gyfrifwyd. Darllenwch fanylion yr incwm a ddefnyddiwyd a rhowch wybod i ni os ydych yn meddwl eu bod yn anghywir.

Fel arfer, mae'r tâl wythnosol yn cael ei drawsnewid i ffigur blynyddol a gofynnir i chi dalu'r tâl misol.

Sut ydw i'n talu'r costau sy'n ddyledus?

Gallwch dalu trwy nifer o wahanol ddulliau, gan gynnwys debyd uniongyrchol, arian parod, siec neu gerdyn credyd neu ddebyd. Byddwn yn anfon i chi'r manylion llawn o ran sut a ble y gallwch chi dalu.

Beth os wyf yn anghytuno â'r penderfyniad?

Gallwch ofyn am adolygiad os ydych yn meddwl ein bod wedi ei gyfrifo yn anghywir. Dylech wneud hyn yn ysgrifenedig i'r Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau. Gweler y manylion cyswllt isod i gael y cyfeiriad.

Byddwn yn edrych ar y tâl wythnosol a aseswyd, ac os yw'n anghywir, byddwn yn ei ailasesu a rhoi cyngor i chi yn unol â hynny. Os na fyddwn yn newid ein penderfyniad byddwn yn rhoi esboniad manwl i chi.

Os ydych dal i fod yn anfodlon â chanlyniad yr adolygiad gallwch gwyno'n swyddogol i'r Cyngor. Gweler y daflen - Cwynion - Sut i Ddweud Eich Dweud.

Sut allaf wneud yn siŵr fy mod yn hawlio'r holl fudd-daliadau cywir?

Mae ein Gwasanaeth Cyngor ar Fudddaliadau ar gael (am ddim) ar gael i unrhyw un fydd yn dechrau mewn gofal preswyl. Gallwn roi cyngor i chi am yr effeithiau ar eich budd-daliadau a gwneud yn siŵr eich bod yn cael yr holl fudd-

daliadau a phensiynau y mae gennych hawl iddynt, ee Credyd Pensiwn.

Mewn rhai amgylchiadau, byddwch yn cael eich atgyfeirio yn awtomatig am Gyngor ar Fudd-daliadau, a byddant yn cysylltu â chi yn uniongyrchol. Os oes angen ichi gysylltu â nhw, gwnewch hynny, ar y rhif isod.

Bydd swyddog yn eich helpu i lenwi unrhyw ffurflenni cais ac yn dilyn y cais wedi hynny i sicrhau eich bod yn derbyn y swm cywir sydd gennych hawl iddo.

Gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cyngor ar Fudd-daliadau ar 01633 648843/648452 / 01495 742541.

Ein manylion cyswllt

Os oes angen mwy o help arnoch, cysylltwch â ni.

Rhif ffôn:

01495 766002

E-bost:

FinancialAssessments@torfaen.gov.uk

Ein Cyfeiriad:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Adran Refeniw a Budd-daliadau (Tîm Aseidiadau Ariannol)
Llawr 3
Y Ganolfan Ddinesig
Pont-y-pŵl, Torfaen
NP4 6YB

Mae'r daflen ffeithiau hon ar gael mewn ieithoedd a fformatau eraill ar gais. Cysylltwch â ni i drefnu hyn.